# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 17EG CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fyndediad cyhoeddus I'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679018**

**IwanEdwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 7 Chwefror 2025)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
(Sedd wag)

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2024 fel rhai cywir.

**5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADU (CYMRU) 2021 ("Y DDEDDF") DYLETSWYDD ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU** 9 - 11

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro

**6. RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG 2025-26** 12 - 14

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2023-24** 15 - 30

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 31

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

**9. HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED** 32

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

# PWYLLGOR SAFONAU, 04/11/24

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Aled Jones, Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Eirian Roberts a Iwan Edwards (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Beth Lawton.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Nododd y Swyddog Monitro mai'r bwriad oedd i wahodd arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i'r cyfarfod hwn, ond yn sgil newidiadau yn arweinyddiaeth y Cyngor, penderfynwyd na fyddai hynny wedi bod yn ymarferol y tro hwn. Eglurwyd mai'r bwriad yw i symud y cyfarfod gyda'r arweinyddion grwpiau i fis Chwefror 2025. Yn y cyfamser, pan fydd arweinydd newydd wedi ei benodi, nodwyd y bydd y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn trefnu cyfarfod gyda'r Arweinydd i amlygu'r ddyletswydd ar arweinyddion i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp.

Gofynnwyd cwestiwn gan aelod ynglŷn â ble mae'r Cyngor yn sefyll ar hyn o bryd heb arweinydd. Mewn ateb, eglurodd y Swyddog Monitro bod y broses o adnabod arweinydd newydd wedi cychwyn a'r disgwyliad yw y bydd yr arweinydd newydd yn cael ei benodi yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr. Yn y cyfamser, esboniwyd bod y dirprwy arweinydd yn arwain y Cyngor.

Nododd yr aelod ei fod yn siomedig gyda'r diffyg gwybodaeth am bwy i gysylltu gyda yn ystod y cyfnod yma. Mynegodd y byddai wedi hoffi cael mwy o arweiniad gan y Cyngor ynglŷn â'r broses.
.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2024 fel rhai cywir.

**5. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn manylu ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor fel rhan o'r gwaith monitro safonau o fewn y Cyngor.

Nododd y Swyddog Monitro fod gofyn i aelodau gofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sydd werth dros £25. Atgoffwyd bod y cod ymddygiad yn nodi'n glir bod unrhyw rodd sydd yn rhoi aelodau mewn sefyllfa amhriodol, beth bynnag ei werth, yn amhriodol.

Cyfeiriwyd at ran 7.2 o'r adroddiad ble nodwyd bod pob cynnig a gofrestrwyd hyd yma yn fynegiant o ddiolch am gymorth aelod lleol (nid aelod o'r Pwyllgor Cynllunio) gyda chais cynllunio penodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am gadarnhau nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**6. COFRESTR DATGAN BUDDIANT**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn manylu ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Gwynedd ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor fel rhan o'r gwaith o fonitro safonau o fewn y Cyngor.

Esboniwyd mai dyletswydd yr aelodau ydi cofrestru eu buddiannau, ond wrth symud ymlaen bod bwriad i anfon neges at yr aelodau yn gofyn iddynt wirio'r gofrestr i wneud yn siŵr ei bod yn gyfredol. Ymhellach, os yw aelodau yn datgan buddiant mewn cyfarfod rhaid llenwi ffurflen yn nodi natur y buddiant. Nodwyd bod symud i gyfarfodydd rhithiol wedi golygu newid y drefn o lenwi'r ffurflen yn y fan a'r lle i drefn o yrru'r ffurflenni dros e-bost i'r aelodau, ond nad oedd y system yn rhwydd i'w defnyddio. O achos hyn, eglurwyd bod y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn y broses o greu ffurflen ar-lein drwy 'Microsoft Forms' fel bod aelodau yn gallu cwblhau'r manylion heb orfod dychwelyd ffurflen dros e-bost.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag addasrwydd y ffurflen ar-lein ar gyfer aelodau annibynnol, nad ydynt, o bosib' yn defnyddio 'Microsoft', cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod am ofyn i'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau gadarnhau os oes rhaid cael 'Microsoft' ar y cyfrifiadur i gwblhau'r ffurflen ar lein ai peidio.. Awgrymwyd y byddai'n well gan rai aelodau barhau i lenwi ffurflen bapur os ydynt yn mynychu cyfarfod yn y Siambr, ond eglurodd y Swyddog Monitro ymhellach mai'r bwriad yw ceisio cael pob aelod i gwblhau'r ffurflen ar lein oherwydd ei bod yn haws cloriannu a chadw'r wybodaeth dan un gyfundrefn. Awgrymwyd o bosib' bod angen cydweithio gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ymgynghori gyda'r cynghorwyr ar hyn.

Nodwyd, gan bod aelodau'n rhan o bopeth sy'n digwydd o fewn eu cymunedau, y gall fod yn anodd iddynt benderfynu a oes ganddynt fuddiant mewn mater ai peidio. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y cytunai fod hynny'n gallu bod yn anodd, ond bod canllawiau ar gael, a'i fod yn hapus i drafod y canllawiau hynny gyda'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad**

**7. ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O YMCHWILIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU I GWYNION COD YMDDYGIAD.**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar ganfyddiadau ymchwiliad annibynnol i brosesau yr Ombwdsmon.

Nodwyd bod straeon wedi ymddangos yn y wasg ym mis Ebrill eleni yn honni bod aelod o staff yn swyddfa’r Ombwdsmon wedi bod yn ymwneud â datganiadau gwleidyddol iawn ar y cyfryngau cymdeithasol. Soniwyd bod hyn wedi creu pryder o fewn tîm yr Ombwdsmon. Pwysleisiwyd bod cyfundrefn yr Ombwdsmon yn greiddiol i’r gyfundrefn safonau a moesegol yng Nghymru. Nodwyd nad oes system gyffelyb yn Lloegr ac mae rhinweddau sylweddol o safbwynt cynnal y gyfundrefn i gael corff annibynnol a chyfrifoldeb am y broses ymchwilio.

Tynnwyd sylw at ran 4.1 o’r adroddiad ble amlygwyd tri argymhelliad o’r adroddiad annibynnol a fyddai o ddiddordeb i’r aelodau.

Gwahoddwyd sylwadau/cwestiynau gan yr aelodau.

Nodwyd, gan nad oedd nifer o gwynion Ombwdsmon yn mynd ymhellach na’r cam cyntaf, y byddai'n well petai’r achos yn cael ei gyfyngu i’r cwynwr a’r person sydd dan ymchwiliad i arbed y pryder mae ei gyhoeddi yn ei achosi.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod bodolaeth cŵyn Ombwdsmon yn gyfrinachol i’r partïon nes bod penderfyniad ar yr ymchwiliad. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai achwynydd hysbysu’r  person sydd yn destun y gŵyn  o’r gŵyn  yn eu herbyn. Esboniwyd bod profiad yn awgrymu bod y system fel ag y mae yn cynhyrchu llai o bryder ac ymholiadau ynglŷn â chwynion.

Nodwyd y gall aelod ddisgwyl chwech i naw mis cyn i benderfyniad gael ei wneud a chredid mai  diffyg adnoddau gan yr Ombwdsmon a’r ffaith bod cyfran sylweddol  o’i amser yn cael ei ffocysu ar gwynion yn erbyn byrddau iechyd oedd yn gyfrifol am hynny.

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth**

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar benderfyniadau’r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Adroddwyd mai crynodeb yw hwn o gwynion sydd wedi cau er mwyn rhoi darlun i’r Pwyllgor o’r math o bethau sy’n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon a’r penderfyniadau a wneir wrth asesu’r cwynion.

Nodwyd bod y gwahaniaeth rhwng y nifer o gwynion sydd ddim yn mynd i ymchwiliad o gymharu â  nifer y cwynion sydd yn cael eu gwneud, yn eithaf trawiadol. Amlygwyd bod elfen o gydymdeimlad gyda’r Ombwdsmon gan fod pob cŵyn yn gorfod cael sylw..

Nodwyd mai’r bwriad yn y cyfarfod hwn oedd i adrodd ar drefniadau hyfforddi ar gyfer cynghorau tref a chymuned ond, yn anffodus, ymddiheurwyd bod y rhaglen wedi llithro oherwydd pwysau gwaith. Er hyn, llwyddwyd bellach i ail afael yn y rhaglen ac roedd bwriad i ddechrau cynnig y cyrsiau hyfforddi i’r cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol agos. Esboniwyd bod profiad yn awgrymu bod hyfforddiant yn bwysig wrth ymdrin â materion fel hyn. Awgrymwyd hefyd bod angen cynnig llwybr datrys amgen i gwynion lefel isel yn hytrach na darparu hyfforddiant  yn unig.

Sylwadau:

Diolchwyd am yr adroddiad. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro y bydd yr adroddiad ar y trefniadau hyfforddi ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Holwyd a yw'r Ombwdsmon yn ystyried defnyddio prawf trothwy ar gyfer cwynion lefel isel, ac os ydynt, oes proses i gyfeirio'r cwynion lefel isel yn ôl at y Cyngor. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod Unllais Cymru wedi datblygu trefn datrys mewnol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned tua 4 i 5 mlynedd yn ôl. Ymhelaethodd bod y drefn datrys lleol yn anodd i'w gweithredu gan bod y cynghorau tref a chymuned yn gyrff bychan o ran staff ac aelodaeth ac felly mae'r elfen ymddiriedaeth i gynnal y broses yn anoddach i'w greu os oes anghydfod o ddifri' yn y Cyngor.

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro am ei ateb a gofynnwyd ymhellach a fydd yn blaenoriaethu adnoddau yn y meysydd a allai elwa fwyaf o hyfforddiant cynnar. Nododd y Swyddog Monitro ei fod o blaid teilwra'r cwrs i ble mae'r pwyslais angen bod a'i fod yn hapus i basio'r sleidiau o'r cwrs blaenorol a gyflwynwyd i'r aelodau yn ôl yn Ionawr 2020 ymlaen i'r aelodau. Derbyniwyd bod prinder amser i gynnal cwrs ond ei bod yn bwysig taro'r mannau pwysicaf ar gyfer trafodaeth. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig bod clercod cynghorau tref a chymuned yn teimlo bod yna gefnogaeth broffesiynol ar gael iddynt.

Nododd Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned y byddai'n hapus i fynd gyda'r Cadeirydd neu'r Swyddog Monitro i unrhyw gyfarfod i drafod hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn amgáu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2023/24..

Sylwadau:

Mynegwyd gobaith y gall datblygiadau technolegol mewn deallusrwydd artiffisial brosesu cwynion yn syth ac yn ddi-oed ymhen amser gan y credid mai dyma'r datrysiad hir dymor i arbed oedi hir yn y system.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 10. COFNODION FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

Nodwyd bod Meleri Tudur wedi cael ei phenodi fel Llywydd y Panel Dyfarnu Cenedlaethol a mynegwyd balchder ei bod hi'n gyfreithwraig o Wynedd gyda chefndir cryf yn y Sir.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd am 10:30yb a daeth i ben am 11.35yb

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2025** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Y Ddeddf”) Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a’r Pwyllgor Safonau. (Gwahoddir Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i’r Cyfarfod)** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

Mae’r Ddeddf yn gosod dau brif ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol (“Arweinyddion”) mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau trwy Adran 62. Y dyletswyddau yw:

- I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o’u grŵp.
- Cydweithio gyda’r Pwyllgor Safonau wrth iddo weithredu ei swyddogaethau.

Yn ogystal, mae swyddogaethau’r Pwyllgor Safonau yn cael eu hymestyn i gynnwys:

- Monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion â’r ddyletswydd.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Arweinyddion ar y ddyletswydd.

Mae’r ddyletswydd newydd bellach wedi dod i rym ers Mai 2022 sydd yn gosod gofyn positif ar Arweinyddion i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal ymddygiad. Bydd hyn yn golygu cyd-weithio rhwng y Pwyllgor Safonau ac yr Arweinyddion. Gall hyn fod yn gam cadarnhaol i gefnogi safonau ymddygiad aelodau ac i ddatrys materion yn gynnar.

Mabwysiadwyd Protocol gan y Pwyllgor yn Tachwedd 2022

[Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Safonau ar Dydd Llun, 21ain Tachwedd, 2022, 10.30 y.b. (llyw.cymru)]

**2. Cyfrifoldebau Pwyllgor Safonau**

Mae'r newidiadau statudol hefyd yn gosod gofyn ar y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth a’r dyletswydd fel y nodir uchod ac adrodd ar hyn fel rhan o’r adroddiad blynyddol. Er hwyluso a sicrhau proses gytbwys a theg aethpwyd ati felly i sefydlu meini prawf ar gyfer mesur cyflawniad. Defnyddiwyd awgrymiadau oedd wedi eu paratoi yn genedlaethol fel man cychwyn . Adolygwyd y rhain mewn sesiwn briffio rhwng aelodau y Pwyllgor ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol. Mae’r meini prawf sydd yn cael eu hargymell wedi ei atodi yn Atodiad 1 ynghyd a ffurf adroddiad yn Atodiad 2. Amcan y cyfarfod yw rhoi cyflëi ‘r Pwyllgor a’r Arweinyddion Grwpiau adolygu trefniadau y Protocol .

**Argymhelliad**

**Adolygu gweithrediad y ddyletswydd a chadarnhau trefniadau adrodd wrth symud ymlaen.**

**Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol**
**Meini Prawf Ar Gyfer Monitro Ac Adrodd**

Mae adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 fel y'i diwygiwyd gan adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i arweinydd gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru -

1. cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, a
2. rhaid cydweithio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor ( ac unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor) wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Mae'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol yn cynnwys yn Rhan 2 y gofynion i sefydlu - "y trothwy y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei ddefnyddio i sefydlu a yw'n fodlon bod Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021."

1. Arweinwyr Grwpiau i sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn,
2. Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau i gefnogi y Swyddog Monitro I i drefnu fod- Aelodau o fewn eu grŵp ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro yn ôl yr angen,
3. Arweinwyr Grwpiau i cymryd camau gyda'r amcan fod Aelodau yn eu grŵp yn cydweithio â'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau pan gyfeirir mater at y Swyddog Monitro a/neu'r Pwyllgor Safonau,
4. Arweinwyr Grwpiau i gofnodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn eu Grwpiau a'u codi gyda Swyddog Monitro AU mewn modd amserol.
5. Arweinwyr grwpiau i gefnogi presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi.
6. Arweinwyr Grŵp i gwblhau profforma Arweinydd y Grŵp, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen,
7. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol (yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ) yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol),
8. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r swyddog Monitro bob tri mis a a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith ystod pob blwyddyn Cyngor. .

Dyddiedig

<table>
<tr><th colspan="4"><u>HYRWYDDO CYDYMFFURFIAETH GYDA’R COD YMDDYGIAD</u></th></tr>
<tr><td>Adroddiad</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Grwp Gwleidyddol:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Nifer o Aelodau</td><td></td><td>Nifer wedi ei hyfforddi ar y Cod</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Cyfnod</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Statws Cwynion</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| 1.Arweinwyr Grwpiau i sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn, | |
| 2.Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau i gefnogi y Swyddog Monitro i drefnu fod Aelodau o fewn eu grŵp ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro yn ôl yr angen, | |
| 3.Arweinwyr Grwpiau i cymryd camau gyda’r amcan fod Aelodau yn eu grŵp yn cydweithio â'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau pan gyfeirir mater at y Swyddog Monitro a/neu'r Pwyllgor Safonau, | |
| 4.Arweinwyr Grwpiau i gofnodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn eu Grwpiau a'u codi gyda Swyddog Monitro AU mewn modd amserol. | |
| 5.Arweinwyr grwpiau i gefnogi presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi. | |
| 6. Arweinwyr Grŵp i gwblhau proforma Arweinydd y Grŵp, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen | |
| 7. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol (yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ) yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol), | |
| 8. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r swyddog Monitro bob tri mis a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith ystod pob blwyddyn Cyngor. . | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2025** |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Arfaethedig 25 26** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Amcan yr adroddiad yma yw cynnig rhaglen ddraft ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025-26

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

   (e) a'r swyddogaethau penodol yma

   (f) Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned

   (g) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

   (h) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

3. Mae elfennau sefydlog I'r rhaglen yma ond mae'n gyfle hefyd i raglennu gwaith a adolygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu y rhaglen arfaethedig a chynnig unrhyw addasiadau.**

**ATODIAD 1 APPENDIX 1**

| **Gwaith Pwyllgor Safonau 2025/26** | **Standards Committee Work –2025/26** |
|---|---|
| **9 Mehefin 2024**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Hunan Asesiad<br><br>Adolygiad Rhaglenni Hyfforddiant<br><br>Adolygiad trefniadau cofrestrau buddiannau | **9 June 2024**<br><br>Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Self-Assessment<br><br>Review of Training Programmes<br><br>Review of registers of interest arrangements |
| **3Tachwedd 2025**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Adolygu gweithrediad Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol<br><br>Adolygu trefniadau datrysiad Mewnol<br><br>Derbyn adroddiad o Fforwm Safonau Cymru | **3 November 2025**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest Registers<br><br>Ombudsman's Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Review the operation of the Group Leaders Protocol<br><br>Receive report from the Wales Standards Forum |
| **23 Chwefror 2026**<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Rhaglen Waith | **23 February 2026**<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members<br><br>Work Programme |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **17 Chwefror 2025** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2023-24** |
| **Awdur** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad.  Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel er sylw'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

## Blwyddyn 2023 – 2024

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 3 |
| Adran 1 | Amdanom ni | 4 |
| Adran 2 | Perfformiad a Chynnydd | 7 |
| Adran 3 | Crynodebau o Achosion | 11 |
| Adran 4 | Blaenoriaethau Busnes | 14 |
| Adran 5 | Gwariant | 15 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50250, ISBN digidol 978-1-83625-307-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma fy nawfed adroddiad blynyddol a'm hadroddiad terfynol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"). Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod Ebrill – 3 Mawrth 2024.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd y cyhoedd drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod mor fyr ag sy'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei drin yn deg er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Rwyf yn ymwybodol bod fy ngeiriau agoriadol i'r rhagair yn yr adroddiad blynyddol diwethaf yn addo mai hwn fyddai fy adroddiad olaf; ond mae'n anodd rhag-weld y dyfodol ac nid felly y bu yn y pen draw. Neu mewn geiriau eraill, nid yw pethau bob amser yn digwydd yn unol â'r bwriad ac roedd fy ymddeoliad fel Llywydd yn un o'r pethau hynny. Rwyf wrth fy modd yn croesawu fy olynydd, y Barnwr Meleri Tudur, i'r Panel. Mae'n gyfnod o newid mawr i gyfiawnder yng Nghymru ac rwyf yn gwbl ffyddiog y bydd y Barnwr Tudur yn arwain y Panel yn llwyddiannus drwy ei gyfnod nesaf o 1 Gorffennaf 2024.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn brysur i PDC. Nid oes unrhyw un thema sylfaenol wedi deillio o'r achosion yr ydym wedi'u hystyried eleni. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod bod lleiafrif bach o gynghorwyr yn eu cael eu hunain yn delio â PDC. O 1254 o gynghorwyr, cafodd achosion ychydig dros 0.5% eu hystyried gan PDC. Ymdriniwyd â mwy ar lefel leol, naill ai drwy benderfyniad lleol neu gan bwyllgorau safonau. Sut bynnag rydym yn barnu hyn, mae'n dangos bod y mwyafrif helaeth o gynghorwyr yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad neu os oes toriad, ei fod yn fân ac yn hawdd ei gywiro. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â gwaith safonau, gan gynnwys swyddogion a chlercod monitro'r cyngor nad ydynt yn cael clod haeddiannol yn aml, ac Un Llais Cymru sy'n helpu i hyfforddi cynghorwyr ar y Cod Ymddygiad, am eu hamser a'u hymdrech wrth helpu aelodau i ddeall eu dyletswyddau.

Nodwyd bod mwy o gynghorwyr yn methu ag ymateb i atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon at y Panel. Trwy fethu ag ymateb, nid yw cynghorwyr i bob pwrpas yn dadlau â'r atgyfeiriad, sy'n fwy tebygol o arwain at wneud penderfyniad ar bapur. Gan fod y broses yn wrthwynebol, os bydd cynghorwyr yn dewis peidio â chymryd rhan, nid oes neb i groesholi tystion a dim gwrandawiad i'w gynnal, er ei bod yn agored i'r Panel gynnal gwrandawiad beth bynnag er mwyn i'w aelodau ofyn cwestiynau neu glywed cyflwyniadau llafar. Cyflawnir yr egwyddor o gyfiawnder agored mewn amgylchiadau o'r fath drwy gyhoeddi'r adroddiad llawn ar y penderfyniad, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a'r dystiolaeth y dibynnwyd arni. Y cwestiwn sydd heb ei ateb yw pam y mae cynghorwyr yn dewis peidio ag ymateb; ai oherwydd eu bod wedi ymddiswyddo ac yn credu yn anghywir y bydd hynny'n dod â'r broses i ben? Neu am eu bod yn derbyn adroddiad yr Ombwdsmon? Neu am ryw reswm arall? Gall hwn fod yn faes i'w archwilio yn y dyfodol gan y Fforwm Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu, yn wir, y Panel ei hun.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Y sail ar gyfer PDC
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio PDC

## Y sail ar gyfer PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd PDC o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth PDC

Mae Cod Ymddygiad awdurdod yn rhoi i'w aelodau set o safonau a ddisgwylir ganddynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau rhagfarnus, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan PDC ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod; a
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau PDC

Mae PDC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan PDC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron PDC yn deall yn glir y camau y mae rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i PDC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau PDC yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd), a
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)).

## Proses PDC

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i PDC lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at PDC.

Mewn gwrandawiad PDC bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau PDC yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.


Mae PDC yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i gyflwyno apêl iddo.

Mae canllawiau a gwybodaeth lawn am PDC a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan. Fel arall, cysylltwch â thîm gweinyddol PDC i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen 6.

## Aelodau PDC

Mae penodiadau i PDC yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog Cymru ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros PDC a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau PDC Panel ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith PDC. |
| **Y Tîm Gweinyddol** | Mae'r dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo yn bennaf i'r tîm gweinyddol sy'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau i PDC. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr PDC, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |




## Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi penodi dau aelod cyfreithiol newydd, a gaiff eu penodi'n Llywydd ac yn Ddirprwy Lywydd yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

## Cysylltu â PDC

I gysylltu â Thîm Gweinyddol PDC:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad PDC: | Cofrestrydd y Panel<br>Panel Dyfarnu Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>Blwch Post 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| Rhif ffôn PDC: | 03000 259805 |
| E-bost PDC: | adjudication.panel@gov.wales |

## Defnyddio PDC

Mae PDC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'ch iaith gyntaf, ac os ydych am siarad eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu cyfieithydd. Os bydd angen dehonglwr iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd i ganiatáu cymharu.


Mae'r ystadegau canlynol wedi'u cydgasglu:

- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law yn ôl blwyddyn Ebrill 2019 – Mawrth 2024




Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn Ebrill 2019 – Mawrth 2024





Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2019 – Mawrth 2024

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu dros y pum mlynedd diwethaf.



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math Ebrill 2019 – Mawrth 2024




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2023-2024:

| **Math** | **Hyd (mewn diwrnodau)** |
|---|---|
| Atgyfeiriadau | 5 diwrnod gwrandawiad |
| Apêl | 1 diwrnod gwrandawiad |

Cynhaliwyd 0 o gynadleddau rhestru mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2023-2024

| | |
|---|---|
| **Targed:** Ymdrin â 95% o ymholiadau neu fe dderbyniwyd achosion o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Rhoi 100% o hysbysiadau gwrandawiad i ymatebydd/apelydd o leiaf 15 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad gohiriedig | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Cyhoeddi 100% o'r hysbysiadau o wrandawiad o fewn 10 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Cyhoeddi 90% o benderfyniadau o fewn 30 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** : Rhyddhau 75% o geisiadau o fewn 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |

## Cwynion

Ni wnaeth PDC gael na chwblhau unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd o dan sylw.

# Adran 3 – Crynodebau o achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Materion interim
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

### APW/015/2022-023/CT<br>Cyngor Dinas Casnewydd

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn mater y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol. Roedd y cyn-gynghorydd wedi ei euogfarnu o'r drosedd o lithio (ar ôl pledio'n euog), ac roedd cyhoeddusrwydd sylweddol wedi bod ynghylch yr euogfarn.

Dyfarnodd y tribiwnlys achos yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad; er i'r euogfarn ddeillio o ymddygiad yn rhinwedd ei swydd breifat, roedd y cyn-gynghorydd wedi methu ag ennyn hyder yn rôl y Cynghorydd na gwaith yr awdurdod perthnasol wrth atal gweithgareddau o'r fath. Dyfarnodd y Tribiwnlys fod ymddygiad y cyn-gynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod. Ni chanfu'r tribiwnlys achosion ychwanegol o dorri paragraff 6(1)(a) drwy fethiant y cynghorydd i hysbysu'r awdurdod perthnasol o'i fwriad i bledio'n euog neu ei fethiant i ymddiswyddo ar unwaith.

Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad yn unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am naw mis rhag bod neu ddod yn aelod o awdurdod perthnasol.

### APW/001/2023-024/CT<br>Cyngor Cymuned Sant Harmon

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn mater y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol.

Honnir hefyd ei fod hefyd wedi ymddwyn yn y fath ffordd er mwyn creu mantais iddo'i hun neu i osgoi anfantais iddo'i hun.

Roedd Archwilio Cymru wedi cyflwyno adroddiad ar yr awdurdod perthnasol, lle'r oedd yn beirniadu'r cyngor ac unigolion, gan gynnwys y cyn-gynghorydd a oedd yn gadeirydd. Canfu Archwilio Cymru fod y cyn-gynghorydd wedi ceisio ei gamarwain i guddio llywodraethu gwael yn y cyngor a lleihau'r feirniadaeth debygol o'i ymddygiad ei hun. Gwnaed hyn mewn cysylltiad â gwariant arian y cyngor; canfuwyd bod y cyn-gynghorydd wedi methu ag esbonio sut y cyflwynwyd dogfen, a oedd, yn ôl honiad anghywir, yn hysbysiad tendro gwreiddiol, i Archwilio Cymru. Ni ddyfarnodd y tribiwnlys fod y cyn-gynghorydd wedi creu'r hysbysiad, ond fe ddyfarnodd ei fod wedi rhoi disgrifiadau hollol wahanol am yr hyn a oedd wedi digwydd a'i fod wedi ceisio camarwain Archwilio Cymru. Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod y cyn-gynghorydd wedi camarwain Archwilio Cymru ynghylch a oedd dogfen wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor ar ôl iddi gael ei diwygio.

Dyfarnodd y tribiwnlys achos yn unfrydol fod ymdrechion y cyn-gynghorydd i gamarwain Archwilio Cymru wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod perthnasol, a'i fod wedi gwneud hynny er budd iddo'i hun ac i gyflwyno darlun mwy cadarnhaol o arferion llywodraethu a chyfrifyddu'r cyngor. Dyfarnodd y tribiwnlys fod yr ymddygiad yn fwriadol a'i fod yn torri paragraffau 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad. Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad yn unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am 15 mis rhag bod neu ddod yn aelod o awdurdod perthnasol.

### APW/013/2022-023/CT
### Cyngor Sir Powys

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi torri sawl paragraff o'r Cod Ymddygiad drwy gamymddwyn parhaus.

Roedd y cyn-gynghorydd wedi anfon nifer mawr o e-byst at wahanol aelodau a swyddogion o fewn yr awdurdod perthnasol ar nifer o faterion, gan wneud honiadau o lygredd a chwynion eraill. O ganlyniad, rhoddodd y cyngor ymateb ysgrifenedig manwl i'r cyn-gynghorydd (gan ganfod bod y cwynion heb deilyngdod) a gofynnodd iddi beidio ag ailadrodd honiadau o'r fath heb dystiolaeth i'w cefnogi. Cafodd y cyn-gynghorydd ei gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gofynnwyd iddo beidio â chysylltu â neb o dan lefel Pennaeth Gwasanaeth yn y cyngor i reoli ei gohebiaeth.

Anwybyddodd y cyn-gynghorydd y cyngor, a pharhaodd i anfon nifer mawr o e-byst at amrywiaeth o aelodau a swyddogion, gan wneud cwynion tebyg, a chan fynnu cael atebion ar yr un diwrnod ag anfon ei negeseuon e-bost. Rhoddodd y cyngor un pwynt cyswllt i'r cyn-gynghorydd i ddelio â'i gohebiaeth a'i hatgoffa y gellid ystyried ei hymddygiad fel aflonyddu. Dywedwyd wrth y cyn-gynghorydd fod y cyngor yn treulio amser ac adnoddau sylweddol yn delio â'i chwynion dro ar ôl tro a bod ei hymddygiad yn cael ei ystyried yn fygythiol. Parhaodd y cyn-gynghorydd i wneud cwynion a mynnu cael ymatebion, tra'n gwrthod derbyn yr atebion a roddwyd.

Gwnaeth y cyn-gynghorydd mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor sylwadau difrïol yn gyhoeddus am y cyngor a'r swyddogion, gan enwi un yn benodol, gan ddweud nad oedd yn werth y tâl yr oedd yn ei gael a'i fod wedi ei bwlio. Yn ogystal, canfuwyd bod y cyn-gynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a ddarparwyd iddi fel cynghorydd i drydydd partïon ac aelodau eraill ar dri achlysur o leiaf.

Dyfarnodd y tribiwnlys achos yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi torri paragraffau 4(b), 4(c), 5(a), 6(1)(a), 6(1)(d), 7(b)(i) a 7(b)(iv) o'r Cod Ymddygiad. Daeth i'r casgliad yn unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am 18 mis rhag bod neu ddod yn aelod o awdurdod perthnasol.

### APW/0002/2023-024/CT
### Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn mater y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol.

Roedd y cyn-gynghorydd wedi cam-drin dau unigolyn ar dudalen Facebook gyhoeddus. Mae'n ymddangos bod cysylltiad â'i rôl fel cynghorydd o'r geiriau a gafodd eu cyfnewid, a dilëwyd y geiriau hynny yn ddiweddarach. Ymddiswyddodd y cyn-gynghorydd hefyd o'i rôl fel cynghorydd ychydig o oriau ar ôl postio'r geiriau ar Facebook. Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cyn-gynghorydd yn sarhaus ac yn ddifrïol tuag at yr unigolion.

Dyfarnodd y tribiwnlys achos nad oedd y cyn-gynghorydd wedi bwriadu rhoi'r argraff ei bod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd wrth gam-drin y ddau unigolyn, a'i bod wedi gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth bersonol. Daeth i'r casgliad bod y geiriau a gafodd eu cyfnewid yn ymwneud yn bennaf â gelyniaeth hanesyddol a phersonol rhwng y rhai o dan sylw, ac er na ellid goddef yr iaith o dan unrhyw amgylchiadau, nid oedd yn dwyn anfri ar swydd cynghorydd na'r awdurdod perthnasol. Gellir priodoli'r dyfarniad hwn i'r canlynol: oherwydd natur y geiriau a gafodd eu cyfnewid, byddai darllenydd rhesymol yn dod i'r casgliad bod anghydfod preifat arbennig o annymunol yn cael ei wyntyllu'n gyhoeddus. Roedd yn ddigwyddiad unigol a ddilynwyd gan ymddiswyddiad cyflym heb unrhyw sylw gan y wasg.

Dyfarnodd y tribiwnlys achos yn unfrydol nad oedd paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

## Materion interim

Yn ogystal, deliodd y Panel â thribiwnlys achos interim. Ni ddarperir manylion yn yr adroddiad hwn gan y bydd tribiwnlys achos llawn yn delio â'r achos yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Apeliadau

### APW/003/2023-024/AT
### Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Daeth apêl i law yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau fod y cyn-gynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Cyfyngwyd seiliau'r apêl i'r cwestiwn a oedd y ffeithiau fel y'u canfuwyd yng nghyfarfod y pwyllgor safonau yn cadarnhau yn ôl pob tebyg fod y cyn-gynghorydd wedi gwneud cwynion gwacsaw, maleisus a blinderus, a oedd y canfyddiadau, yn eu crynswth, yn dangos bod y cyn-gynghorydd wedi torri paragraffau 6(1)(a) a 6(1)(d) o'r Cod Ymddygiad, ac os canfuwyd bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri, a roddwyd sêl bendith i'r gosb o geryddu.

Dyfarnodd y tribiwnlys apêl yn unfrydol fod y ffeithiau a ganfuwyd gan y pwyllgor safonau wedi cadarnhau bod y ffeithiau a ganfuwyd yng nghyfarfod y pwyllgor safonau wedi cadarnhau bod y cyn-gynghorydd wedi gwneud cwynion gwacsaw, maleisus a blinderus. Canfuwyd bod y cwynion yn gwynion am benderfyniadau'r cyngor a'u bod wedi'u gwneud heb geisio unrhyw gyngor am y Cod Ymddygiad er mwyn deall nad oedd yn briodol cwyno am benderfyniadau'r cyngor yn y fath fodd. Dyfarnodd y tribiwnlys apêl ymhellach fod y cwynion sy'n weddill wedi bod yn faleisus ac yn flinderus, yn ogystal â gwacsaw, wrth i'r cyn-gynghorydd fethu â dilyn y canllawiau yr oedd hi wedi'u cael a'i bod wedi gwastraffu amser ac adnoddau'r Ombwdsmon ar gwynion a wnaed heb sail ddigonol. Ni wnaed y cwynion er budd y cyhoedd. Nododd y tribiwnlys apêl hefyd fod y cyn-gynghorydd yn fodlon torri cyfrinachedd mewn ffordd fwriadol a difrifol.

Dyfarnodd y tribiwnlys apêl yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi torri paragraffau 6(1)(a) a 6(1)(d) o'r Cod Ymddygiad, ac fe roddodd sêl ei fendith i'r cerydd a osodwyd gan y pwyllgor safonau. Ychwanegodd ei fod yn pryderu bod y cyn-gynghorydd wedi sôn droeon am ei phenodiad fel Ynad Heddwch cyfredol ond ei bod wedi ymddwyn mewn ffordd a ganfuwyd yn amhriodol i rywun â swydd farnwrol.

### APW/005/2023-024/AT

Gwrthodwyd un cais am ganiatâd i apelio gan y Llywydd ar y sail nad oedd ganddo obaith rhesymol o lwyddo.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2024-2025

Mae'n bwysig bod PDC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd PDC yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2024-2025

- Cynllunio a darparu digwyddiad hyfforddiant i'r holl aelodau;
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Yn dilyn canlyniad adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar dribiwnlysoedd Cymru a'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol, a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru mewn ymateb, rhoi unrhyw newidiadau ag sy'n ofynnol gan y ddeddfwrfa ar waith.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2023-2024

## Gwariant ar gyfer 2023-2024

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau (achosion a hyfforddiant) | £33,593 |
| Digwyddiadau tribiwnlys (costau gwrandawiad a chostau eraill) | £270 |
| **Cyfanswm** | **£33,863** |

Wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **17 Chwefror 2025** |
| **Teitl** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad blaenorol. Ar hyn o bryd rydym yn ymwybodol o saith cwyn, yn ymwneud â phedwar cyngor gwahnol, y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddynt.

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

| Pwyllgor | Y Pwyllgor Safonau |
|---|---|
| **Dyddiad** | **17 Chwefror 2025** |
| **Teitl** | **Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned** |
| **Awdur** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn rhan o swyddogaeth statudol y Pwyllgor Safonau. Mae'r Pwyllgor wedi adnabod yr angen i gynnal hyfforddiant o'r fath, ond wedi derbyn bod ei ddarparu wedi bod yn heriol yn ddiweddar fel canlyniad i ddiffyg adnoddau.

2. Mae gennym eisoes sesiwn wedi ei baratoi a'i dreialu ar gyfer cynghorau cymuned. Amcan y sesiwn yw galluogi aelodau a chlercod i gael dealltwriaeth o hanfodion y Cod Ymddygiad, arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith ac amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach. Bydd yn cynnwys cyflwyniad gyda sleidiau a chyfle i holi cwestiynau a thrafod wedyn.

3. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom ac mae dau ddyddiad wedi eu trefnu hyd yn hyn sef ar 18/03/25 a 27/03/25 am 18:30**.** Bydd y cyflwyniad drwy'r Gymraeg ond bydd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth.

4. Mae cyfyngiadau ymarferol ar sawl person all fynychu, yn enwedig o safbwynt caniatáu holi a thrafod yn dilyn y cyflwyniad. Mae'n anodd hefyd rhagweld faint fydd â diddordeb mynychu, gan mai dyma'r tro cyntaf i ni drefnu sesiynau fel hyn. Ar gyfer y ddwy sesiwn gyntaf felly mae'r gwahoddiad wedi ei anfon at glercod cynghorau cymuned ardal Arfon. Bydd modd addasu'r trefniadau yn sgil y profiad o'u cynnal os bydd angen.

5. Yn ogystal â chynnal mwy o sesiynau ,byddwn hefyd yn recordio cyflwyniad a'i osod ar wefan Cyngor Gwynedd. Byddai modd ei wylio ar unrhyw adeg felly a byddai ddefnyddiol i aelodau newydd ar ôl iddynt gael eu hethol neu rhai sy'n methu mynychu'r sesiynau byw.

**Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.